Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Arbennig Riverbank, Ffederasiwn Dysgu'r Gorllewin

**Heol Vincent**
**Trelái**
**CF5 5AQ**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Arbennig Riverbank, Ffederasiwn Dysgu'r Gorllewin

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Arbennig Riverbank, Ffederasiwn Dysgu'r Gorllewin |
| Awdurdod lleol | Cyngor Caerdydd |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Arbennig |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 71 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 69 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 0 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd mewn ysgolion arbennig a gynhelir yw 44.7%) | 61.3% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol mewn ysgolion arbennig a gynhelir yw 100%) | 100.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 39% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 09/01/2019 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 11/01/2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 21/11/2022 |

Mae Ysgol Riverbank yn darparu addysg ddydd ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 11 mlwydd oed. Mae 71 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol ar hyn o bryd. Mae anghenion dysgu ychwanegol y disgyblion yn amrywiol. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae gan ychydig llai na

hanner y disgyblion anawsterau lleferydd, cyfathrebu ac iaith, ac mae gan chwarter pellach ohonynt anawsterau cyflwr y sbectrwm awtistiaeth (CSA). Mae gan ychydig llai na dau o bob pum disgybl anawsterau dysgu difrifol. Mae gan un deg pedwar y cant o ddisgyblion anhawster dysgu cyffredinol ac/neu anghenion corfforol a meddygol.

Mae lleiafrif y disgyblion o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig. Mae mwyafrif y disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Mae'r ysgol wedi bod yn gweithio gyda phrifysgol leol i dderbyn myfyrwyr TAR ac mae'n cymryd rhan mewn rhaglen TAR beilot ar gyfer athrawon dan hyfforddiant sy'n dymuno dilyn gyrfa ym maes anghenion dysgu ychwanegol.

Mae wyth dosbarth yn yr ysgol, a 10 o athrawon cyfwerth ag amser llawn, a 25 o gynorthwywyr addysgu.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn 2015 a'i gosod yn y categori monitro gan Estyn. Tynnwyd yr ysgol o'r categori hwn yn 2017. Penodwyd pennaeth yr ysgol ym mis Medi 2019, ond roedd wedi bod yn bennaeth dros dro yn syth ar ôl yr arolygiad.

Disgwylir y bydd Ysgol Riverbank yn symud i safle newydd wedi'i adeiladu'n bwrpasol ar gampws addysg Y Tyllgoed yn 2026.

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Riverbank yn un o dair ysgol arbennig sy'n ffurfio Ffederasiwn Dysgu'r Gorllewin. Sefydlwyd y ffederasiwn ym mis Ionawr 2018. Nod y ffederasiwn yw cyflawni arbedion maint, datblygu cydweithio agos ar draws yr ysgolion er budd disgyblion a staff, fel ei gilydd, a datblygu a gwella capasiti arwain, tra'n cynnal hunaniaeth unigol pob un o'r tair ysgol.

Caiff pob un o'r tair ysgol eu gwasanaethu gan un corff llywodraethol, a'u harwain gan bennaeth gweithredol, a benodwyd yn 2019.

Mae Ysgol Riverbank yn gymuned ofalgar ac anogol sy'n darparu gofal, cymorth ac arweiniad gwerthfawr ar gyfer ei disgyblion. Mae staff yn rhoi lles disgyblion yn ganolog i bob agwedd ar ei gwaith.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas o'u mannau cychwyn cychwynnol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae disgyblion yn datblygu eu medrau cymdeithasol yn llwyddiannus, yn ogystal â medrau pwysig ar gyfer bywyd. Maent yn dod yn ddysgwyr hyderus ac yn datblygu medrau cyfathrebu priodol wrth iddynt symud ymlaen trwy'r ysgol.

Ceir diwylliant cryf sydd wedi'i seilio ar werthoedd yr ysgol, y mae disgyblion yn eu dangos bob dydd, fel caredigrwydd at bobl eraill. Mae disgyblion yn cymryd rhan yn weithredol mewn gwneud penderfyniadau yn yr ysgol, a rheolir hyn yn ofalus gan staff sy'n darparu cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion gael eu cynnwys yn weithredol mewn amrywiaeth o benderfyniadau tra'n cydnabod anghenion a galluoedd amrywiol disgyblion.

Mae'r cwricwlwm yn eang a chytbwys, ac yn canolbwyntio ar y disgybl. Mae profiadau'r cwricwlwm wedi eu teilwra i ddiwallu anghenion disgyblion yn effeithiol. Mae'r amrywiaeth o ddarpariaeth awyr agored yn galluogi disgyblion i brofi dysgu trwy ystod o amgylcheddau creadigol. Mae hyn yn cynorthwyo disgyblion yn dda i ddatblygu ystod o fedrau, yn enwedig eu medrau cymdeithasol.

Mae cymuned anogol a gofalgar yr ysgol yn cefnogi lles disgyblion yn gryf, gan alluogi i anghenion cymdeithasol ac emosiynol disgyblion gael eu diwallu'n effeithiol. Ceir ymgysylltiad cryf â theuluoedd a'r gymuned, a chefnogir hyn yn dda gan y swyddog cyswllt â theuluoedd.

Mae arweinyddiaeth ar draws yr ysgol yn effeithiol. Mae arweinwyr yn dangos ymrwymiad uchel i welliant ar draws yr ysgol a'r ffederasiwn. Mae gweithio mewn partneriaeth yn cyfrannu'n llwyddiannus at gynorthwyo disgyblion a theuluoedd ar draws yr ysgol.

## Argymhellion

A1 Datblygu ymagwedd systematig at ddatblygu medrau darllen disgyblion

A2 Cryfhau'r defnydd o ddulliau cyfathrebu cyflawn i sicrhau bod y rhain yn bodloni dulliau cyfathrebu sy'n cael eu ffafrio gan ddisgyblion yn gyson

A3 Sicrhau bod yr amgylchedd dysgu mewnol yn diwallu anghenion pob un o'r dysgwyr, yn enwedig y rhai ag anghenion mwy cymhleth a synhwyraidd

A4 Gwerthuso effaith Ffederasiwn Dysgu'r Gorllewin ar Ysgol Riverbank

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith yn gysylltiedig â gwaith y swyddog cyswllt â theuluoedd, yn enwedig ar ei waith i gynorthwyo rhieni a gofalwyr ynghylch mynd i'r afael â'r agenda tlodi, a defnydd yr ysgol o ddysgu yn yr awyr agored i ddiwallu anghenion disgyblion ag anghenion cymhleth a synhwyraidd, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Oherwydd eu hanghenion dysgu cymhleth a lluosog, mae ystod gallu disgyblion ar draws yr ysgol yn amrywio'n sylweddol. At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn gwneud cynnydd addas o'u mannau cychwyn cychwynnol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae'r diwylliant cynnes ac anogol yn yr ysgol yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu eu medrau cymdeithasol yn llwyddiannus. Dros gyfnod, mae llawer o ddisgyblion yn dysgu gwrando'n dda ar staff a'u cyfoedion. Maent yn dilyn cyfarwyddiadau ac yn ymateb yn briodol mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd cymdeithasol. Er enghraifft, maent yn ciwio yn amyneddgar mewn clwb brecwast ac yn cymryd eu tro i ddewis cerddoriaeth ar gyfer amser cylch. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn defnyddio ystod o strategaethau yn gyson i gyfathrebu'n rhugl. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn rhyngweithio'n hyderus â phobl sy'n ymweld â'r ysgol ac yn dangos parch at aelodau o gymuned yr ysgol.

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu medrau pwysig ar gyfer bywyd fel gwydnwch a hyder. Maent yn ymgymryd â heriau â brwdfrydedd a chyffro. Mae hyn yn cefnogi eu dysgu'n dda. Er enghraifft, mae disgyblion â chyfrifoldebau, fel y 'llysgennad eco', yn monitro amgylchedd yr ysgol yn ofalus.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn yr ysgol yn datblygu eu medrau corfforol yn briodol. Maent yn datblygu eu medrau echddygol bras trwy amrywiaeth o weithgareddau, er enghraifft yn ystod sesiynau 'beiciau a threiciau' fel rhan o addysg awyr agored neu drwy gemau 'dodgeball' yn neuadd yr ysgol. Mae disgyblion yn datblygu eu medrau echddygol manwl trwy weithgareddau ystyrlon fel ychwanegu topins i'w tost neu greu marciau trwy ddefnyddio technoleg.

Dros gyfnod, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau buddiol sy'n cefnogi eu hannibyniaeth a'u hunanofal, ac mae'r rhain yn berthnasol i'w hanghenion penodol a'u mannau cychwyn. Er enghraifft, mae disgyblion yn brwsio eu dannedd, yn gwisgo eu cotiau yn annibynnol ac yn symud o gwmpas yr ysgol heb gymorth oedolyn. Mewn clwb brecwast, mae bron pob un o'r disgyblion yn casglu eu brecwast eu hunain ac yn dychwelyd eu hambwrdd a'u plât gwag. Mae ychydig o ddisgyblion yn torri tost yn annibynnol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu eu medrau digidol yn addas ar draws ystod o gyd-destunau. Mae disgyblion yn tynnu lluniau o'u gwaith eu hunain ac yn gwneud dewisiadau gan ddefnyddio'r bwrdd gwyn rhyngweithiol. Mae ychydig o ddisgyblion yn teipio ymadroddion sylfaenol a'u henw eu hunain.

Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn dangos ystod eang o fedrau ysgrifennu, o greu marciau cyn-ysgrifennu, tros-ysgrifennu ac ysgrifennu brawddegau byr yn annibynnol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymarfer eu medrau cyn-ysgrifennu ar draws ystod o gyfryngau, gan gynnwys trwy weithgareddau peintio a chwarae anniben. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau

ysgrifennu, ac mae ychydig ohonynt yn symud ymlaen i ynganu ac ysgrifennu brawddegau syml yn annibynnol, er enghraifft wrth ysgrifennu gwahoddiad i'w ffrindiau ar gyfer ffiesta Frasilaidd y dosbarth fel rhan o waith testun.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn dda. Maent yn canu'n frwdfrydig yn Gymraeg ac yn Saesneg yn ystod gwasanaethau, ac yn defnyddio eu dysgu blaenorol i ychwanegu manylion perthnasol at baentiadau fel rhan o'u gwaith testun ar Yr Iseldiroedd.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas mewn rhifedd. Maent yn datblygu dealltwriaeth sylfaenol o rif, er enghraifft wrth gyfrif conau hufen iâ yn ystod gweithgaredd coginio yn y dosbarth. Lle bo'n briodol, mae lleiafrif o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth ddyfnach ac yn adnabod siapiau ac yn rhagweld dilyniannau, er enghraifft wrth ddefnyddio blociau adeiladu i greu patrymau.

Mae mwyafrif o ddisgyblion yn datblygu medrau darllen priodol. Maent yn darllen yn rheolaidd ac yn datblygu cariad at ddarllen. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn darllen ar goedd yn rhugl, yn ynganu geiriau anghyfarwydd ac yn cywiro eu camgymeriadau gyda chymorth oedolyn.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn teimlo'n hapus ac yn ddiogel. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymdawelu'n gyflym mewn gwersi ac yn barod i ddysgu. Maent yn ymateb yn dda i'r arferion sefydledig yn yr ystafell ddosbarth ac yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'r wers a gyflwynir iddynt. Ar draws yr ysgol, ceir perthnasoedd cryf rhwng pob un o'r disgyblion a'r staff. Mae'r perthnasoedd hyn yn caniatáu i ddysgu pwrpasol ddigwydd, er enghraifft mewn gwersi lle mae disgyblion yn cydweithio tra'n cynnal arbrawf.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos dealltwriaeth dda o werthoedd yr ysgol, fel caredigrwydd. Maent yn mwynhau cael eu gwobrwyo am ddangos y gwerthoedd hyn mewn gwasanaethau wythnosol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn uniaethu'n dda ag ymwelwyr. Maent yn gwrtais, yn agor drysau ac yn falch o ddangos eu hysgol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymgysylltu'n dda â staff a'u cyfoedion. Er enghraifft, maent yn dysgu cymryd eu tro â'i gilydd.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol oherwydd yr ethos cadarnhaol yn Riverbank. Maent yn mwynhau'r ymagwedd gynnes ac anogol sy'n cael ei darparu gan bob un o'r staff, yn enwedig ar ddechrau'r diwrnod. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn barod i ddysgu. Mae llawer o ddisgyblion sy'n newydd yn yr ysgol yn ymgyfarwyddo â'r arferion yn gyflym. Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos ymddygiad da yn y dosbarth ac yn ystod amseroedd egwyl. Yn ystod y clwb brecwast dyddiol, mae bron pob un o'r disgyblion yn uniaethu'n dda â'i gilydd. Maent yn bwyllog ac yn barchus ac yn cymryd eu tro i gasglu eu brecwast. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn paratoi eu brecwast eu hunain yn annibynnol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau'r cyfleoedd gwerthfawr i ddysgu am gadw'n iach. Mae llawer o ddisgyblion yn dewis byrbrydau iach trwy gydol y dydd, ac yn mwynhau rhoi cynnig ar y rhain trwy archwilio a chwarae. Er enghraifft, maent yn gwneud sgiwerau ffrwythau a lapiadau guacamole.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn ystod addas o weithgareddau corfforol fel dawns, nofio a ioga. Mae llawer ohonynt yn deall pwysigrwydd ymarfer corff ar gyfer bod yn iach ac yn defnyddio ystod eang o offer chwarae ac ymarfer corff yn ystod amseroedd egwyl. Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau'r 'tŷ hobit' a sefydlwyd yn ddiweddar, sy'n helpu'r disgyblion hynny sydd fel arfer yn chwarae ar eu pen eu hunain i wella eu medrau cymdeithasol. Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau amser cinio fel defnyddio parasiwtiau a chylchynau a chwarae pêl-droed. Mae hyn yn helpu datblygu eu hymwybyddiaeth o ofod a medrau corfforol.

Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau cael swyddi cyfrifol yn yr ysgol, yn cynnwys gwaith y cyngor ysgol. Mae aelodau o'r cyngor ysgol yn dechrau cyfarfod wyneb yn wyneb eto ar ôl y pandemig. Maent wedi cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau gwneud penderfyniadau am yr ysgol a'r ffederasiwn. Er enghraifft, maent wedi mwynhau'r cyfle i fod yn rhan o'r paneli cyfweld ar gyfer penodi staff. Mae ychydig iawn o ddisgyblion wedi ymgyrchu'n llwyddiannus i roi cyri yn ôl ar fwydlen yr ysgol amser cinio.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymwybodol fod ganddynt lais, ac mae ganddynt ymwybyddiaeth briodol o'u hawliau fel unigolion. Maent yn mwynhau trafod eu hawliau mewn gwasanaethau wythnosol lle maent yn gwneud penderfyniadau pwysig am fywyd yr ysgol, fel awgrymiadau ar gyfer clybiau newydd amser cinio. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn deall sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel ar-lein. Er enghraifft, maent yn creu posteri diogelwch ar-lein yn dweud wrth bobl eraill i beidio â rhannu eu cyfrinair.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau creadigol gyda darparwyr allanol, fel eu gwaith gyda cherddorfa ac Opera Cenedlaethol Cymru. Mae hyn yn datblygu eu hyder a'u hunan-barch yn effeithiol. Maent yn mwynhau cyfrannu at fywyd ehangach yr ysgol a'r gymuned hefyd, er enghraifft pan fyddant yn gwneud offer bwydo ceirw ac addurniadau i'w gwerthu yn eu ffair Nadolig flynyddol.

Er gwaethaf effaith y pandemig, mae presenoldeb wedi gwella, ac mae uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae staff yn yr ysgol wedi cydweithio i gynllunio cwricwlwm pwrpasol sy'n canolbwyntio ar y disgybl yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru. Mae'n eang a chytbwys ac yn cael ei ddatblygu i ddiwallu anghenion disgyblion yn yr ysgol.

Mae staff yn ennyn diddordeb disgyblion yn eu dysgu yn llwyddiannus trwy gyflwyno themâu newydd trwy 'ddiwrnodau cyfoethogi' cyffrous a dilys, er enghraifft trwy herio disgyblion yn yr ysgol i gwblhau amrywiaeth o arbrofion gwyddonol i ddod o hyd i atebion i broblem feddygol. O ganlyniad, mae disgyblion yn ymgymryd â heriau newydd yn frwdfrydig.

Mae staff yn yr ysgol yn adnabod eu disgyblion yn dda iawn. Maent yn datblygu perthnasoedd cadarnhaol ac anogol yn seiliedig ar barch ar y ddwy ochr. O ganlyniad, mae disgyblion yn ymgysylltu'n gynyddol yn eu gwersi ac yn dangos

ymddygiad cadarnhaol. Mae athrawon yn defnyddio arferion sefydledig i gefnogi amseroedd pontio a pharatoi disgyblion ar gyfer eu dysgu.

Ar draws yr ysgol, mae staff yn cynllunio ystod o weithgareddau dysgu difyr sy'n bodloni diddordebau disgyblion yn dda, fel sesiynau neu weithgareddau chwarae rôl sy'n eu galluogi i ddylunio eu parti thema eu hunain. Yn ychwanegol, mae'r ysgol yn darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ymwneud â'r gymuned fel rhan o'u gweithgareddau dysgu rheolaidd. Er enghraifft, yn ddiweddar, fe wnaethant ymweld â maes awyr Caerdydd i gefnogi tîm pêl-droed Cymru wrth iddynt adael ar gyfer Cwpan y Byd FIFA.

Mae'r ddarpariaeth addysg helaeth yn yr awyr agored yn gryfder yn yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o amgylcheddau dysgu difyr yn yr awyr agored, fel ardaloedd chwarae, ardal beiciau a threiciau, gardd ysgol ar gyfer tyfu llysiau ac ardal goediog gyda'i phwll tân ei hun a'r 'cwt hobit'. Mae disgyblion yn ffynnu yn yr amgylcheddau creadigol hyn, er enghraifft wrth ddefnyddio'r gofod awyr agored i ddatblygu medrau cymdeithasol pwysig a'u dealltwriaeth o risg.

Mewn cyferbyniad, mae'r amgylchedd dysgu dan do yn yr ysgol yn rhwystro cyflwyno'r cwricwlwm, yn arbennig ar gyfer disgyblion â'r anghenion mwyaf cymhleth a synhwyraidd.

Mae staff yn rhoi canmoliaeth ystyrlon i ddisgyblion i ddathlu eu cyflawniadau. O ganlyniad, mae disgyblion yn dangos balchder yn eu gwaith. Pan fydd angen, mae staff yn cywiro camdybiaethau yn sensitif ac yn rhoi arweiniad tyner i ddisgyblion i wella'u gwaith.

Mae'r ysgol yn mabwysiadu ymagwedd ysgol gyfan at ddatblygu medrau cyfathrebu disgyblion. Megis dechrau datblygu y mae hyn, ac o ganlyniad, mae anghysondebau ar draws yr ysgol.

Pan fydd y cynllunio, yr asesu a'r addysgu yn effeithiol, mae disgyblion yn ymgymryd yn llawn â gweithgareddau ystyrlon sy'n diwallu eu hanghenion unigol yn dda. Fodd bynnag, mae ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol yn rhy amrywiol. Mewn ychydig o wersi, nid yw dysgu'n gweddu i anghenion disgyblion yn ddigon da, nid yw amcanion dysgu'n glir ac mae diffyg diben i weithgareddau cynlluniedig.

Mae staff cymorth yn yr ysgol yn darparu cymorth sylwgar ar gyfer disgyblion ac yn arwain gweithgareddau dysgu yn effeithiol. Fodd bynnag, mae cyfarwyddyd i staff cymorth yn rhy amrywiol, ac mewn lleiafrif o ddosbarthiadau, nid oes niferoedd digonol o staff i ddiwallu anghenion cymhleth disgyblion yn ddigon da.

At ei gilydd, mae staff ar draws yr ysgol yn defnyddio holi'n effeithiol i ymestyn dysgu. Mae staff yn defnyddio ystod o gwestiynau agored a chaeedig, sy'n briodol i anghenion disgyblion. O ganlyniad, mae disgyblion yn galw dysgu blaenorol i gof ac yn ei gymhwyso i gyd-destunau sy'n gynyddol newydd. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn rhannu adborth ar waith enghreifftiol ac yn cywiro camdybiaethau.

O ganlyniad i'r newid ym mhroffil disgyblion yn yr ysgol, mae arweinwyr wedi nodi bod angen diwygio ymagweddau at addysgu darllen. Megis dechrau datblygu y mae'r fenter newydd hon.

Mae'r ysgol yn casglu ystod o wybodaeth asesu ddefnyddiol am ddisgyblion i werthuso eu cynnydd. Caiff y rhain eu haddasu'n raddol yn unol â newidiadau ehangach i'r cwricwlwm, ac mae'n rhy gynnar i werthuso eu heffaith.

Caiff rhieni a gofalwyr ddiweddariadau rheolaidd am gynnydd eu plentyn trwy blatfform electronig. Hefyd, mae'r ysgol yn darparu adroddiadau rheolaidd i rieni a gofalwyr, sy'n rhannu gwybodaeth fuddiol am gamau nesaf eu plant mewn dysgu. Mae adroddiadau blynyddol i rieni a gofalwyr yn wych a hygyrch, ac yn rhoi cyfleoedd i rieni weld ffotograffau o gyflawniadau eu plentyn. Mae'r rhain yn gofnod buddiol o gynnydd disgyblion a'r hyn sy'n cael ei gwmpasu gan y cwricwlwm. Mae rhieni a gofalwyr yn gwerthfawrogi'r ohebiaeth gan yr ysgol ynghylch addysg eu plentyn.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae Ysgol Riverbank yn gymuned ofalgar ac anogol sy'n darparu gofal, cymorth ac arweiniad gwerthfawr i'w disgyblion. Lles disgyblion sydd wrth wraidd pob agwedd ar waith yr ysgol. Mae staff yn sensitif i anghenion disgyblion ac yn hyrwyddo diwylliant cadarnhaol yn gyson.

Mae'r ysgol yn darparu cymorth gwerth chweil i ddiwallu anghenion cymdeithasol ac emosiynol ei disgyblion yn effeithiol. Mae staff hyfforddedig yn dangos lefelau uchel o ofal a thosturi ar gyfer yr holl ddisgyblion. Maent yn meithrin perthnasoedd gweithio cadarnhaol â disgyblion ac yn creu amgylchedd hapus a chadarnhaol. Mae'r ysgol yn asesu a monitro medrau cymdeithasol ac emosiynol disgyblion yn ofalus. Mae hyn yn darparu gwybodaeth werthfawr ac yn galluogi'r ysgol i gynllunio ymyrraeth deilwredig ar gyfer disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol. Mae 'Dosbarth Pili Pala', er enghraifft, yn amgylchedd gofalgar i ddisgyblion ddatblygu eu medrau cymdeithasol a chyfathrebu, yn ogystal â'u lles.

Yn unol â diwygio anghenion dysgu ychwanegol (ADY), mae gan bob un o'r disgyblion broffiliau un dudalen priodol. Mae'r ysgol yn defnyddio arfer yn canolbwyntio ar yr unigolyn yn effeithiol i sicrhau bod rhieni, yr ysgol, y disgyblion ac asiantaethau allanol yn cael llais mewn cynllunio i ddiwallu anghenion disgybl. Mae proffiliau a chynlluniau datblygu unigol disgyblion yn bwrpasol ac yn cynnwys targedau buddiol, sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys dulliau defnyddiol i hyrwyddo dysgu a lles disgyblion.

Mae staff yn gweithio'n effeithiol gydag amrywiaeth o wasanaethau arbenigol. Mae'r partneriaethau llwyddiannus hyn yn cefnogi gwella gwybodaeth a medrau staff, ac yn eu helpu i ddiwallu anghenion mwy cymhleth disgyblion yn briodol. Mewn ychydig iawn o achosion, ni ddefnyddir y cyngor hwn yn gyson i gefnogi anghenion disgyblion yn ddigon da.

Mae ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned yn gryfder. Mae swyddog cyswllt â theuluoedd yr ysgol yn ystyried safbwyntiau rhieni ac anghenion teuluoedd yn ofalus. Mae hyn yn ei helpu i gynllunio cymorth teilwredig a gwerth chweil ar gyfer disgyblion a'u teuluoedd. Mae'r swyddog cyswllt â theuluoedd yn cyfeirio rhieni a gofalwyr at gymorth addas gan ystod o asiantaethau allanol. Mae'n hwyluso hyfforddiant gwerthfawr ar gyfer rhieni a gofalwyr ar ystod o fentrau buddiol, gan gynnwys defnyddio prosesau cyfathrebu'r ysgol i gynorthwyo disgyblion i ddysgu gartref. Mae'r swyddog cyswllt â theuluoedd yn helpu'r ysgol i ystyried yr effaith y gall cost y

diwrnod ysgol ei chael ar gyllidebau teuluoedd. Er enghraifft, darperir byrbrydau iach dyddiol am y gost leiaf i deuluoedd. Mae hyn yn sicrhau bod mynediad teg ar gyfer pob disgybl. Rhoddir ystyriaeth ofalus i gynorthwyo disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol, fel cyflogi cynorthwywyr addysgu dwyieithog a defnyddio technoleg gyfieithu fuddiol. Mae hyn yn sicrhau bod negeseuon yn cael eu cyfleu'n effeithiol i'r holl rieni.

Mae ardal helaeth gardd yr ysgol yn darparu profiadau dysgu o ansawdd da yn yr awyr agored ar gyfer disgyblion ag anghenion synhwyraidd. Mae hyn yn cynnwys cegin fwd, pwll peli, chwarae yn y tywod, llwybr synhwyrau a rhandir. Mae staff yn defnyddio'r adnoddau gwerthfawr hyn yn eithriadol o dda i hyrwyddo dysgu bob dydd. Maent yn hwyluso gweithgareddau sy'n helpu disgyblion i ddatblygu ystod eang o fedrau a sicrhau bod eu hanghenion synhwyraidd yn cael eu diwallu'n bwrpasol.

Mae lle amlwg i lais y disgybl ym mywyd yr ysgol. Er enghraifft, pan fydd disgyblion yn ymgymryd â rôl weithredol mewn creu eu proffiliau un dudalen, maent yn helpu staff i benderfynu beth sy'n eu helpu i ddysgu orau. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion ymgymryd â swyddi cyfrifol hefyd. Mae'r trefniadau hyn yn hyblyg, sy'n sicrhau bod nifer fawr o ddisgyblion yn cael cyfleoedd i gymryd rhan a gwneud gwahaniaeth. Mae gwaith y cyngor ysgol yn gryfder arbennig. Yn nodedig, mae disgyblion wedi creu eu cynllun datblygu ysgol eu hunain ar sail eu harsylwadau a gynhaliwyd ar deithiau o gwmpas yr ysgol.

Mae gwaith yr ysgol i hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o'u hawliau yn hynod effeithiol. Caiff gwerthoedd craidd yr ysgol eu hyrwyddo'n dda trwy wasanaethau rheolaidd a gweithgareddau yn y dosbarth. Mae pob un o'r staff yn dathlu pan fydd disgyblion yn dangos y gwerthoedd hyn ym mywyd bob dydd yr ysgol.

Mae gan yr ysgol ddiwylliant cryf o ddiogelu, sy'n sicrhau diogelwch lles ar gyfer yr holl ddisgyblion a staff. Mae system electronig gadarn a sefydledig ar waith i staff adrodd am bryderon, a'u cofnodi, ac mae ar gael yn rhwydd. Caiff staff hyfforddiant priodol gyda diweddariadau adnewyddu rheolaidd wedi'u holrhain i sicrhau bod eu harfer yn gyfredol ac yn effeithiol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r arweinyddiaeth a ddarperir gan bennaeth yr ysgol yn gymhellol ac yn hynod effeithiol. Mae arweinwyr ar draws yr ysgol yn gyson weladwy. Maent yn fodelau rôl cadarnhaol ar gyfer disgyblion ac yn darparu cymorth trylwyr ar gyfer staff. Mae'r weledigaeth strategol gref, sy'n rhoi anghenion disgyblion wrth wraidd holl waith yr ysgol, yn eithriadol o lwyddiannus. Caiff y weledigaeth hon ei deall a'i rhannu'n frwdfrydig gan bob un o'r staff ar draws cymuned yr ysgol.

Mae'r tîm arweinyddiaeth yn dangos ymrwymiad cryf i welliant ar draws yr ysgol a'r ffederasiwn. Ar y cyd â phennaeth yr ysgol, mae arweinwyr yn gweithio'n effeithiol fel tîm ac yn hyrwyddo diwylliant cadarn o lwyddiant i'r holl ddisgyblion, datblygiad proffesiynol a pharch i bawb. Mae'r gwerthoedd craidd hyn yn cefnogi lles disgyblion a staff yn gadarnhaol.

Ar draws yr ysgol, mae proses a systemau cadarn ar waith ar gyfer hunanwerthuso. Mae arweinyddiaeth effeithiol yn sicrhau bod staff yn datblygu eu gallu i weithio fel ymarferwyr myfyriol. Mae prosesau monitro a gwerthuso sefydledig yn cefnogi cynllunio gwelliant a chyflwyno yn llwyddiannus. Mae'r prosesau hyn wedi'u cysylltu'n effeithiol â nodau strategol a blaenoriaethau gwella'r ffederasiwn a'r ysgol. Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gywir o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu, a'r camau y mae angen iddynt eu cymryd i barhau â'r cylch gwelliant. Mae arweinwyr yn cydnabod anghenion newidiol disgyblion yn yr ysgol, yn ymateb i'r newidiadau hyn yn dda ac yn trefnu datblygiad proffesiynol targedig effeithiol ar gyfer staff. Er enghraifft, mae hyfforddiant diweddar ar ymddygiad cadarnhaol ac ymagwedd ysgol gyfan at ddatblygu medrau cyfathrebu disgyblion yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar draws yr ysgol.

Mae camau sicrhau ansawdd yn gadarn. Mae'r rhain yn cynnwys cyfarfodydd  panel mewnol sy'n cynnwys arweinwyr yr ysgol, y pennaeth gweithredol a'r dirprwy bennaeth, is-bwyllgor y corff llywodraethol a chyfarfodydd y corff llywodraethol llawn. Mae'r camau sicrhau ansawdd hyn yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i arweinwyr ar draws y ffederasiwn a'r ysgol fyfyrio a gwneud gwelliannau strategol wedi'u seilio ar sail dystiolaeth gadarn.

Mae cyflymdra'r newid wedi bod yn gyflym dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae arweinwyr yn cydnabod yr angen i atgyfnerthu'r newidiadau hyn, gan ganiatáu amser i fyfyrio a gwerthuso effaith y newidiadau hyn ar ddeilliannau disgyblion.

Mae'r broses rheoli perfformiad sefydledig ar gyfer pob un o'r staff yn hynod effeithiol ac yn cefnogi gwelliant ysgol a datblygiad proffesiynol yn dda. Mae pob un o'r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau ac yn cyfrannu'n bwrpasol at broses hunanwerthuso'r ysgol. Mae arweinwyr yn cefnogi'r diwylliant o ddatblygiad proffesiynol yn llawn, sy'n cysylltu â rheoli perfformiad, blaenoriaethau'r ysgol, a datblygiad staff unigol yn gadarn. Mae arweinwyr a staff yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd cryf a gaiff y ffederasiwn ar gyfer datblygiad proffesiynol pwrpasol cynyddol, sy'n cryfhau set medrau pob un o'r staff ar draws yr ysgol. Er enghraifft, mae'r systemau buddiol i gefnogi gweithio cyfoedion, trwy 'driawdau ymddiriedaeth' i hyrwyddo rhannu arfer dda a datblygiadau yn seiliedig ar ymchwil, wedi cryfhau ansawdd deialog broffesiynol a her ymhlith staff i godi safonau addysgu a dysgu.

Mae gan arweinwyr amrywiaeth o fentrau i weithio'n bwrpasol gydag ystod o bartneriaid a gofalwyr, a gryfhawyd yn ystod y pandemig i gefnogi anghenion disgyblion a theuluoedd. Ar draws yr ysgol, ceir cysylltiadau cryf â rhieni a gofalwyr, sy'n cael eu cynorthwyo'n sylweddol trwy waith y swyddog cyswllt â theuluoedd. Mae'r cymorth hwn yn hynod fuddiol ac yn darparu cymorth a chyngor sensitif ar draws ystod o feysydd gan gynnwys effaith tlodi.

Mae arweinwyr yn hyrwyddo diwylliant cryf o ddiogelu. Mae hyn yn annatod i waith pob aelod o staff ar draws yr ysgol. Mae systemau cadarn ar waith i gofnodi ac olrhain atgyfeiriadau a gwaith gyda gweithwyr proffesiynol amlasiantaethol.

Mae arweinwyr wedi sicrhau y gwnaed gwelliannau i'r adeilad presennol. Fodd bynnag, nid yw'r adeilad yn diwallu anghenion poblogaeth bresennol yr ysgol yn ddigon da ac mae hyn yn effeithio'n sylweddol ar allu staff i gyflwyno'r cwricwlwm.

Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae Ffederasiwn Dysgu’r Gorllewin wedi datblygu gweledigaeth glir ar y cyfan, a gefnogir gan nodau strategol hynod uchelgeisiol. Fodd bynnag, nid yw’r ffederasiwn bob amser yn disgrifio camau gweithredu a nodwyd yn fanwl gywir. Ar adegau, maent yn llawn jargon ac yn aneglur.

Caiff y ffederasiwn a’r pennaeth gweithredol eu cynorthwyo’n dda iawn gan gadeirydd y llywodraethwyr a chorff llywodraethol sy’n cefnogi’r weledigaeth ar gyfer y ffederasiwn a’i ysgolion yn fawr. Maent yn angerddol ac yn defnyddio eu medrau yn dda, ar y cyfan, i gefnogi a herio’r tîm arweinyddiaeth weithredol. Fodd bynnag, nid yw pob un o’r llywodraethwyr yn gwbl ymwybodol o nodau a blaenoriaethau’r ffederasiwn. Yn ychwanegol, nid yw ychydig ohonynt yn ddigon ymwybodol o benderfyniadau am wariant.

Mae dyletswyddau’r corff llywodraethol yn ymestyn ar draws y tair ysgol. Caiff aelodau o’r corff llywodraethol eu cynghori’n addas ar waith y tair ysgol gan y pennaeth gweithredol a phenaethiaid ysgol. Mae penaethiaid ysgol, lle bo’n briodol, yn rhoi cyflwyniad i lywodraethwyr ar waith eu hysgol, ac maent yn aelod o’r corff llywodraethol mewn rhinwedd arsylwi. Yn rhannol oherwydd y cynnydd yng nghyfrifoldeb y corff llywodraethol a chyfyngiadau ar ôl y pandemig, mae’r graddau y mae llywodraethwyr yn ymweld â phob ysgol yn anffurfiol a chyfarfod â disgyblion a staff, yn anfynych, ac mae hyn yn cyfyngu ar eu dealltwriaeth o bob un o’r tair ysgol.

Mae’r pennaeth gweithredol wedi sefydlu cyfres o systemau a strwythurau gwerthfawr i sicrhau bod y corff llywodraethol yn gwneud penderfyniadau gwybodus. Mae systemau a goruchwylio cyllid, er enghraifft, ar draws y ffederasiwn, yn gryf. Fodd bynnag, rhagwelir diffyg yng nghyllidebau craidd pob un o’r ysgolion. Yn ddiweddar, mae’r ffederasiwn wedi cynyddu ei gapasiti arwain, ac o ganlyniad, mae’r cyfraniad a wna pob ysgol at ariannu’r ffederasiwn wedi cynyddu, sy’n cyfyngu ymhellach ar yr adnoddau sydd ar gael i’r tair ysgol. Mae hyfywedd hirdymor y ffederasiwn yn aneglur.

Estynnir y cynnig dysgu proffesiynol ar gyfer staff gan bartneriaethau cryf â darparwyr allanol. Yn ychwanegol, datblygu hyfforddwyr mewnol a chydweithio ar draws y ffederasiwn mewn meysydd fel ymagweddau cadarnhaol at hyfforddiant cymorth ymddygiad. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar waith ysgolion. Cryfhawyd y cynnig dysgu proffesiynol ar gyfer arweinwyr hefyd.

Mae’r ffederasiwn wedi cynnal dadansoddiad trylwyr o’r cyllid a gaiff, ac wedi llwyddo i sicrhau cynnydd yn y cyllidebau craidd ar gyfer pob un o’r ysgolion. O ganlyniad i’r gweithgaredd hwn, mae ysgolion arbennig eraill yn yr awdurdod wedi elwa hefyd.

Mae’r ffederasiwn a’r ysgolion wedi cryfhau cysylltiadau ag ystod o bartneriaid sy’n darparu gwasanaethau hynod werthfawr a hanfodol i ddisgyblion a staff, fel ei gilydd. Er enghraifft, mae gan y ffederasiwn gynlluniau tra datblygedig i gomisiynu gwasanaethau gan yr awdurdod iechyd lleol i ymestyn darpariaeth ar draws y tair ysgol, lle bo’n briodol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 27/01/2023